Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Y Felinheli a gynhaliwyd ar yr 8fed Rhagfyr, 2009, yn Y Neuadd Goffa,, Y Felinheli
Minutes of the meeting of Felinheli Community Council held on 8th December, 2009 at The Memorial Hall , Y Felinheli

Yn Bresennol/Present: Sian Gwenllian (Cadeirydd)
Ken Brown(Is-Gadeirydd)
Lena Ashley; Pat Jones; Eluned Owen;
George Smith;. Pat White

1) Sylwadau Agoriadol/Opening Remarks:

Estynnodd yr Is-Gadeirydd groeso i bawb i'r cyfarfod.
Safodd y Cyngor am gyfnod o ddistawrwydd gyda pharch ac er cof am Marcia Williams a fu farw yn frawychus o sydyn.

The Vice Chairman extended a welcome to all to the meeting.
The Council stood and observed a period in silence and with reverence in memory of Marcia Williams who died suddenly.
.

2) Ymddiheuriadau/Apologies: Iestyn Harris; Carolyn Pritchard
Daniel Williams

3) Datgan Diddordeb / Declaration of Interest – Dim / None

4) Cofnodion/Minutes:

Derbyniwyd cofnodion o'r Cyfarfod a gynhaliwyd ar 10fed Tachwedd fel rhai cywir.

Minutes of the Meeting held on 10th November were confirmed as correct.

5 & 6) **Materion I'w Trafod/Matters for Discussion:**

1) Traffic a Parcio – Dim symudiad ar y mater o drosglwyddo darn o dir tu ol i Neuadd yr Eglwys ar gyfer creu maes parcio. Dim ymateb gan yr Eglwys hyd yn hyn.

2) Cyfyngu amser parcio ar Stryd Bangor – Adroddwyd bod Cyngor Gwynedd yn gweithredu ar hyn gyda'r bwriad o newid y cyfyngiadau o Maes Elim draw heibio'r Felin Sgwrsio, i ddwy awr a dim cyfyngiad ar y penwythnos. Bydd cyfyngiad presennol yn aros ar bob rhan arall o Stryd Bangor.

3) Siwrne Saff: adroddwyd y bydd y gwasanaeth yma yn y pentref mor aml a phosib.

4) Y Gornel ger Gardd Fon: adroddwyd bod Cyngor Gwynedd wedi gwneud cynllun a bydd y mater yn cael ei drafod ymhellach yn y cyfarfod nesaf.

5) Prydlesu 3 medr o dir hen drac y Rheilffordd ger Ffordd Caernarfon ; Adroddwyd bod Cyfreithiwr Y Cyngor wedi cael golwg ar y llythyr dderbyniwyd oddi wrth Cyngor Gwynedd ac yn fodlon gweithredu ar ran y Cyngor. Penderfynwyd penodi Mr Gerallt Jones, LL.B. o gwmni Emyr Thomas a'i Fab, i weithredu ar ran y Cyngor ac i'r Clerc hysbysu Cyngor Gwynedd o'r penderfyniad i fwrw mlaen a'r Brydles ac i gysylltu a Mr Gerallt Jones fel eu cyfreithiwr.

Felin Daclus :–

1) Adroddwyd bod y Cadeirydd a Chynghorwyr Carolyn Pritchard a Daniel Williams wedi bod yn clirio darn o dir ger arosfan bws wrth yr Eglwys a bod Cyngor Gwynedd wedi gosod bun newydd yno.

2) Llwybr preifat rhwng Uwch Menai/Penceunant/Stryd Menai. Penderfynwyd, fel arwydd o ewyllys da, i ofyn am bris gan y contractwr sydd yn gofalu am y fynwent a'r llwybrau i lanhau a thacluso'r llwybr yma er mai llwybr preifat i'w hi. Clerc i gysylltu a'r contractwr ac i symud ymlaen os yw'r pris yn rhesymol.

3) Adroddwyd bod y Felin Daclus wedi plannu coed ar y tir y tu ol i'r maes parcio cymunedol. Clerc i hysbysu Arfon Jones Contractwrs, rhag iddynt dorri'r coed pan yn tacluso'r rhan yma o'r llwybr.

Canolfan Iechyd Rowen : Pethau yn symud mlaen.

Tai Fforddiadwy : Gweler cais cynllunio.

Traffic and Parking –

1) Reported that there was no progress to report on the transfer of a parcel of land at the rear of Church Hall for the purpose of creating a parking area.. No response from the Church at this stage.
2) Parking restrictions on Bangor Street – reported that Gwynedd Council are working on this with the intention of amending the restrictions from Maes Elim to beyond Felin Sgwrsio, to two hours with no weekend restrictions. The current restrictions will remain in place for the remainder of Bangor Street.
3) Arrive Alive: Reported that this service will be in the village as often as possible.
4) Gardd Fon Corner: Reported that Gwynedd Council have prepared a scheme and the matter will be discussed at the next meeting.
5) Lease of 3 metres of the old railway line land near Caernarfon Road: reported that the Council's Solicitor had studied the contents of the letter received from Gwynedd Council and was prepared to act on behalf of the Council. It was agreed that Mr Gerallt Jones LlB, Emyr Thomas & Son, be appointed to represent the

Community Council and for the Clerk to notify Gwynedd Council of the appointment; the decision to proceed with the Lease, and to consult with Mr Geraint Jones as their solicitor.

FELIN DACLUS -

1. Reported that the Chairman and Councillors Carolyn Pritchard and Daniel Williams had been clearing a parcel of land near the bus stop by the Church and that Gwynedd Council have sited a new rubbish bin there.
2. Private footpath between Uwch Menai/Penceunant, Menai Street. Decided as a gesture of good will, to ask the Contractor that is undertaking work at the cemetery and footpaths for a price to clear and tidy up this footpath despite it being a private footpath. Clerk to consult with the contractor and to proceed if the price quoted is reasonable.
3. Reported that a quantity of saplings had been planted on land at the rear of the community car park. Clerk to notify Arfon Jones Contractors, in case they break the saplings when tidying up this part of the footpath.

Rowen Health Centre : Matters are proceeding.

Affordable Housing : see Planning Applications

7) Adroddiad Pwyllgor Rheoli'r Neuadd

Adroddwyd fod ymgynghoriad cyhoeddus wedi ei gynnal a bod yr ymateb yn ffafriol i'r datblygiad. Cafwyd ambell i syniad nad oedd wedi ei ystyried o'r blaen. Un o'r rhain oedd creu grisiau i gysylltu'r ystafell bwyllgor a'r neuadd. Penderfynwyd cynnwys yr awgrymiad yma yn y cynllun ac i Alun Meirion, y Pensaer weithredu ar hyn.

Adolygiad Cyflog y Gofalwr – Adroddodd y Clerc bod y Gofalwr yn awyddus i dynnu'r llythyr yn gofyn am adolygiad cyflog yn ôl. Derbyniwyd y cais. Eglurwyd y bydd rhaid edrych yn fanwl ar gytuned cyflogaeth y gofalwr unwaith bydd gwaith addasu'r neuadd wedi ei gwblhau. Bydd angen cytundeb cyflogaeth ysgrifenedig yn ogystal a rhestr dyletswyddau newydd. Penderfynwyd gadael popeth fel y maent nes bydd newidiadau yn y Neuadd wedi eu cwblhau

Materion cynnal a chadw. Yn dilyn y dywydd arw yn ddiweddar, roedd gwlybaniaeth wedi ymddangos ar rhan o lawr y Neuadd. Clerc i gysylltu a Mr Albert Williams

HALL MANAGEMENT COMMITTEE - reported that a public consultation had taken place and that the response to the development had been favourable. A few suggestions, that had not been previously considered, were received. One of these was to create stair access between the Hall and the Community Room. This suggestion was well received and it was agreed to include this suggestion within the plans and for Alun Meirion, the Architect, to amend the plan.

Caretakers' Salary – The Clerk reported that the caretaker wanted to withdraw her letter requesting a review of her salary. The request was accepted. It was explained that it would be necessary to look very carefully at the caretakers' contract of employment once the development at the Hall had been completed. There will be a need for a written contract of employment as well as a new list of caretakers' duties and responsibilities. AGREED to leave matters as they are until the alterations at the Memorial Hall are completed.

Matters of repair and maintenance – Following severe weather conditions, water had penetrated through the roof onto part of the Hall floor.
Clerk to consult with Mr Albert Williams.

8) Cadarnhau Gwariant y mis blaenorol ac Adroddiad Ariannol/Confirm Payments for the Previous Month and Financial Report:

Cadarnhawyd gwariant Mis Tachwedd.

Payments for the month of November were confirmed.

9) Gohebiaeth/Correspondence:

Nodwyd y gohebiaeth a ddaeth i law yn ystod y mis.
Correspondence received during the month were noted

Cynllun Gwella Cyngor Gwynedd - Adroddiad ar Gyrhaeddiad 2008/09
Gwynedd Council's Improvement Plan – Report on 2008/09 Performance

Strategaeth Tai Lleol Gwynedd 2009-2012
Gwynedd Local Housing Strategy 2009-2012

Fforwm 'Rheoli Risg Llifogydd a'r Arfordir' 16eg Rhagfyr
'Flood Risk Management and the Coastline' Forum 16th December

Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol I Gymru - Arolwg o'r Trefniadau Etholiadol ar gyfer Sir Gwynedd
Local Government Boundary Commission for Wales – Review of Electoral Arrangements for the County of Gwynedd

Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid Gwynedd - Seminar 10.12.09 Parc Menai
Gwynedd Mon Youth Justice Service – Seminar 10.12.09 Parc Menai

Cartrefi Cymunedol Gwynedd - Bwletin Aelodau - Rhagfyr 2009
Members' Bulletin – December 2009

Cyngor Gwynedd - Gwynedd Council - Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd – Canllawiau Cynllunio Atodol Drafft – Tachwedd 2009
Gwynedd Unitary Development Plan - Draft Supplementary Planning Planning Guidance – November 2009

Ombwdsman / Ombudsman - Cod Ymddygiad - Canllawiau Drafft gan Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
Code of Conduct - Draft Guidance from the Public Services Ombudsman for Wales.

10) Adroddiad Is-Bwyllgor Cofeb y Cloc/Memorial Clock: -

Gwlybaniaeth yn dal i ddod mewn i'r cloc – Clerc i gysylltu a Mr Albert Williams eto.

Water still penetrating the clock – Clerk to consult with Mr Albert Williams again.

11) Ceisiadau Cynllunio/Planning Applications:

1) Tir Tan y Maes, Y Felinheli - Adeiladu 32 o dai fforddiadwy i gyfarfod ac anghenion lleol.
DIM GWRTHWYNEBIAD OND NIFER O BRYDERON
a) problemau dwr hanesyddol a sustem draeniad (angen asesiad amgylcheddol)
b) adeiladu clos
c) mynediad i'r safle
d) bydd adeiladu tai 2 a 3 ystafell wely yn fwy addas i gyfarfod anghenion lleol
e) trawiad gaiff datblygiad o'r fath faint gael ar y gymdeithas sy'n bodoli

Land at Tan y Maes, Y Felinheli - Erection of 32 affordable dwellings to meet locally generated need.
NO OBJECTION BUT A NUMBER OF CONCERNS
a) historical water problems and drainage system (environmental assessment required)
b) the cramped buildings
c) site entrance
d) the building of 2 and 3 bed roomed houses would be more appropriate to meet local needs
e) the effect a development of this magnitude would have on existing inhabitants.

2) Portdinorwic Estate, Y Felinheli - Gwaith cynnal a chadw /Maintenance work to trees

DIM GWRTHWYNEBIAD / NO OBJECTION

3) 3 Aber Cottages, Y Felinheli - Cais am ganiatad ardal cadwriaeth I dorri coeden
Application for conservation area consent to fell a tree

DIM GWRTHWYNEBIAD / NO OBJECTION

4) Hilbre, Lon Llwyn, Y Felinheli – cais cynllunio i newid defnydd o dy i dy a Meithrinfa – trafodwyd y cais yma mewn pwyllgor blaenorol gyda chanlyniad i wrthwynebu'r cais am amryw o resymau. Yn dilyn hyn, derbyniwyd lythyr oddi wrth yr ymgeisydd, drwy law swyddog cynllunio Cyngor Gwynedd, yn ymateb rhan helaeth o'r rhesymau a nodwyd. Ar ol trafodaeth estyngedig, methodd y Cyngor a dod i benderfyniad. Penderfynwyd bod angen ymweliad lleoliad a chytunodd Cyng Ken Brown; Lena Ashley; Pat Jones a Pat White gyfarfod am 2.0pm pnawn Llun, 14eg Tachwedd ac i'r Clerc drefnu presenoldeb Mr Idwal Williams, Uwch Swyddog Cynllunio Cyngor Gwynedd i fod yn bresennol os yn bosib.

Hilbre, Bush Road, Y Felinheli – planning application for change of use from dwelling into a dwelling and nursery accommodation – this matter had been discussed at a previous meeting when it was decided to object to the application for a number of reasons. Following this, a letter was received from the applicant forwarded by the Planning Officer, Gwynedd Council, responding to most of the objections raised. After an extensive discussion, the Council failed to agree on a decision. Decided that a site visit would benefit and it was agreed that Cllrs Ken Brown, Lena Ashley, Pat Jones and Pat White would meet at 2.0pm on Monday, 14th November and for the Clerk to arrange for Mr Idwal Williams, Senior Planning Officer, Gwynedd Council to be present if at all possible.

12) Adroddiad Is Bwyllgor y Fynwent/ Report of the Cemetery Sub-Committee

Clerc i drefnu plac addas i roi ar fainc er cof am Cyng Emyr Roberts

Clerk to arrange a suitable plaque for the bench in memory of Cllr Emyr Roberts.

13) Adroddiad Is Bwyllgor Maes Parcio/Lon Las/ Report of the Car Park/Lon Las Sub Committee

Adroddwyd bod un o'r bolardiau a roddwyd yn ddiweddar yn y maes parcio wedi ei ddifrodi fel na all ei ddefnyddio a bod angen un newydd. Penderfynwyd peidio ac ail osod bolard.

Adroddwyd hefyd bod gor dyfiant yn gorchuddio clogfeini llechan ar Lon Las.
Y Clerc i gysylltu a Mark Balaam, Cyngor Gwynedd

Reported that one of the bollards recently installed in the car park had been damaged to such an extent that it could not be used and there was a need for a new one. DECIDED not to replace the bollard.

Reported also that overgrowth had completely covered the slate boulders on Lon Las. The Clerk to contact Mark Balaam, Gwynedd Council.

14) Adroddiad Is Bwyllgor Llwybrau Cyhoeddus/Cysgodfannau/Meinciau
Report of Public Footpaths/Shelters/Benches Sub Committee

Llwybrau – Clerc i ddal i gysylltu a Swyddog Adfywio Bro er mwyn gweld sawl o'r cynghorau lleol sydd a diddordeb mewn creu taflen ar y cyd..

Arolwg Llwybrau : cafwyd ymateb gan Adran Llwybrau, Cyngor Gwynedd yn dilyn ymholiad gan y Cyngor Cymuned ynghlyn ar arolwg gwblhawyd ganddynt. Cadarnhawyd bod yna waith o lanhau/tacluso yn cael ei weithredu gan gangiau cymunedol ar lwybrau cyhoeddus rhifau 16 –17 – 18 a rhan o stepiau o Ffordd Caenarfon i Gei Llechi. Mae arwyddion wedi eu gosod ar lwybr cyhoeddus rhif 21 – un wedi ei osod ar byst arwydd Ffordd Caernarfon gyferbyn a rhif 1 Penceunant ac arwydd golofn golau stryd gyferbyn a Clwb y Felin. Bydd gwaith i gau tyllau/hwyneb anwastad yn cael ei weithredu ar ran o lwybr cyhoeddus rhif 21 tu cefn i stryd Penceunant.

Cysgodfan – Bu i'r Clerc gadarnhau ei fod wedi gwneud cais am gysgodfan yn y Wern, dros ffordd a'r ysgol.

Footpaths – a response had been received from the Footpaths Department, Gwynedd Council, following an enquiry from the Community Council regarding the survey completed by them. It was confirmed that cleaning and tidying up work is being undertaken by the Community Gang on footpaths Nos 16-17-18 and part of the steps leading from Caernarfon Road to Cei Llechi. A sign has been placed on public footpath No 21 – one on road sign post Caernarfon Road opposite No 1 Penceunant and one on a street lighting lamp opposite Clwb y Felin. Work filling holes and uneven surfaces is being undertaken on part of public footpath No 21 at the rear of Penceunant.

Bus Shelter – The Clerk confirmed that he had submitted an application for a bus shelter at Y Wern, opposite the school.

15) Adroddiad y Cynghorydd Sir/Report of County Councillor

Adroddiad ar lafar.

Toriadau ariannol Cyngor Gwynedd – adroddwyd bod y mater yma yn cael ei drafod ar y dydd Iau canlynol.

Llithrfa Gwesty Plas Dinorwic – mae cais cynllunio newydd i'w gyflwyno

Gang Cymunedol – cadarnhau bod y gang o gwmpas ac mae gwaith yn cael ei wneud.

Felin Sgwrsio – cynhelir bore o gawl a chanu carolau dydd Sadwrn.

A verbal report was received:

Gwynedd Council Financial Cuts – reported that this matter was to be discussed the following Thursday.

Plas Dinorwic Hotel Slipway – a new application is to be submitted.

Community Workforce – confirmed that the workforce is about and work is undertaken.

Felin Sgwrsio – a morning of soup and carol singing will be held on Saturday.

16) Unrhyw Fater Arall / Any Other Matter

Cyflwynnodd y Cadeirydd ei diolch i bawb gan ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda..

The Chairman conveyed her thanks and wished everyone a Merry Christmas and a Happy New Year.

Dim materion eraill i'w trafod a daeth y Pwyllgor i ben am 8.55 yh

Y cyfarfod nesaf i'w gynnal yn Y Neuadd Goffa am 7.00 y.h. Nos Fawrth , Ionawr 12fed.

No other matters to discuss and the Meeting finished at 8.55.p.m.

The next meeting will be held at the Memorial Hall at 7.00 p.m. on Tuesday 12th January 2010